Datblygu Addysgeg Alwedigaethol
O Arbenigwr i Addysgwr

Mae'r gweithdy undydd hwn, sy'n cael ei gyflenwi gan Panda Education and Training, yn cael ei ranariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) trwy Lywodraeth Cymru.

Nid yw gwybodaeth yn ddigon. Rydych yn arbenigwr yn eich maes, ond ydych chi'n arbenigwr mewn addysg? Mae'n rhaid cael arweiniad arbenigol er mwyn dysgu.

Byddwn yn ystyried egwyddorion ac arferion sylfaenol dysgu er mwyn datblygu arbenigedd ymarferwyr galwedigaethol.

Byddwn yn ystyried beth y mae'n ei olygu i fod yn addysgwr yn yr unfed ganrif ar hugain, proffesiynoldeb deuol a sut y gallai newid yng nghyfeiriad y meddwl helpu i'ch datblygu'n addysgwr arbenigol!

Bydd y diwrnod yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar Addysgeg Alwedigaethol a sut y mae angen i ni symud o ddysgu am addysgu i 'ddysgu am ddysgu' er mwyn dod yn addysgwyr arbenigol.

Nod y diwrnod yw rhoi cynifer o ddyfeisiau ag y bo modd i'r rhai sy'n cymryd rhan ac mae hefyd yn gweithio ar yr egwyddor o addunedu i 'Newid 1 peth'. Byddwn yn gofyn i chi ddewis un peth o'r diwrnod i'w roi ar waith gyntaf, gan ei gwneud yn haws i weithredu'r syniadau a ddysgwyd.

Erbyn diwedd y dydd, bydd y rhai sy'n bresennol wedi cael cyfle i:

- Adnabod prif bwyntiau addysgeg alwedigaethol a gweld manteision defnyddio technegau addysgu a dysgu wedi'u seilio ar dystiolaeth
- Ystyried beth yw dysgu a sut i ddefnyddio strategaethau i sicrhau bod dysgwyr yn dysgu mewn sefyllfa alwedigaethol
- Gwybod beth yw ystyr 'proffesiynoldeb deuol' a sut i wneud y naid o fod yn arbenigwr i fod yn addysgwr
- Gwybod y gwahaniaeth rhwng cyfeiriad meddwl sefydlog a chyfeiriad meddwl sy'n edrych at dyfu
- Gwneud pethau y gellir eu haddasu i'w cyflenwi naill ai yn yr ystafell ddosbarth neu mewn sefyllfaoedd asesu 1-1
- Addunedu i newid un peth – rhoi un ddyfais neu dechneg a ddysgwyd yn ystod y dydd ar waith yn eu gwaith bob-dydd

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

Gweithdy 1 – Gwneud dysgu'n weladwy
Nod: Cyflwyno'r rhai sy'n bresennol i ddysgu trwy drefnu gwybodaeth a gwneud crynodeb ohoni

Erbyn diwedd y gweithdy, bydd y rhai sy'n bresennol wedi gallu:

- Defnyddio gwahanol ddyfeisiau a thechnegau i drefnu gwybodaeth yn weledol
- Gweld manteision defnyddio dulliau trefnu graffig gyda dysgwyr
- Gweld sut y mae gwneud crynodeb o wybodaeth yn help gweledol i ddysgu

Gweithdy 2 – Dysgu trwy hyfforddi
Nod: Cyflwyno'r rhai sy'n bresennol i egwyddorion hyfforddi (coaching) a sut y gall hynny helpu'r broses ddysgu

Erbyn diwedd y gweithdy, bydd y rhai sy'n bresennol wedi gallu:

- Adnabod sgiliau hyfforddwr effeithiol
- Adnabod manteision cwestiynau hyfforddi
- Defnyddio'r model GROW i hyfforddi rhywun arall i feithrin sgil

Gweithdy 3 – Dysgu trwy gystadlu

Nod: Dangos sut y gall gweithgareddau cystadleuol fod yn ddyfeisiau pwerus ar gyfer hybu hyder, datblygu gallu technegol lefel uchel, ac annog hunanddibyniaeth

Erbyn diwedd y gweithdy, bydd y rhai sy'n bresennol wedi gallu:

- Ystyried sut i ddefnyddio gwahanol fathau o weithgareddau cystadleol gyda dysgwyr i ennyn diddordeb, dysg a sgiliau
- Gweld sut y gall cystadleuaeth annog dysgu
- Gweld cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn cystadlaethau a seilir ar sgiliau

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government